Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 13. Rhif 12.] RHAGFYR, 1913. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Nodion y Mis.
Ymsom y Myfyriwr.
Ymweliad a Canada a'r Unol Dalaethau.
Parch. E. Ceredig Jones, M.A.
John Penry.
Mr. D. Jones, C.M., Mydroilyn.
Cyfarfodydd Canmlwyddol
Bwlchyfadfa. (Gyda Darlun).
Priodasau.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis ; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Pacific Unitarian School for the Ministry, Berkeley, California.

FOUNDED 1904.

Aims at thorough and scientific scholarship ; emphasizes the application of religious ideals to municipal and social as well as individual life ; gives complete preparation for the modern ministry and social service. It works in co-operation with the University of California and other Divinity Schools and affords an unusually wide choice of courses. Open to both sexes.

The Spring Term begins January 13, 1914. Write for the Register and complete information to the President.

EARL MORSE WILBUR, D.D..
Pacific Unitarian School,
Berkeley, California.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith ; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad . . . .

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

—— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. ——

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD. RHAGFYR, 1913. [CYF. XIII. RHIF 12.

AR EDYN FFYDD.

DYDD NADOLIG.

HENFFYCH foreu genedigaeth
Iesu, mwyn Dywysog Hedd,
Roddodd ini fuddugoliaeth
Ar y byd ac ofnau'r bedd ;
A heirdd gangau bythol wyrddion
Gwisgwn ein cartrefi cu,
Fel datganiad o'n gobeithion
Mai anfarwol ydym ni.

Henffych foreu o lawenydd—
Eto mae'r angylion gwiw
Yn cyhoeddi, drwy'r holl wledydd,
Wedd-newidiad dynol ryw ;
'Run o hyd eu cenad hawddgar,
I anghofrwydd fyth nid ä—
Boed tangnefedd ar y ddaear
Ac i ddynion 'wyllys da.

Henffych foreu o adgofion
Am yr amser dedwydd fu,
Ddont yn llu i loni'n calon
A throi'n Haf ein Gauaf du ;
Heddyw ni gawn fyw o'r newydd
Oriau o hyfrydwaith pur,
Yn nghymdeithas ceraint dedwydd
Sydd yn awr uwch poen a chur.

Henffych foreu Dydd Nadolig !
Adnewyddwn heddyw'n llon,
Ein serchiadau cyssegredig,
Cyfoeth pena'r ddaear hon ;
Adgyneuer llusern cariad
Yn aneddau dynol ryw,
Fel y dyger i weithrediad
Gân angylion sanctaidd Duw.

E. CEREDIG JONES.

NODION Y MIS.

UNDODIAETH.—Nid yw Undodiaeth wedi ei adeiladu ar wadu, a negyddu, a gwrthod yr hyn a gred pobl eraill, eithr y mae'n gorphwys ar seiliau cadarnhaol, ar yr hyn a gredir ei fod yn wir a sylweddol. Gwell gan yr Undodwr ddweyd "Mae hyn yn wir," na dywedyd, "Nid yw hynyna yn wir." Nid oes gan yr Undodiaid gredo benderfynol; ond credu wnant, ac y mae eu crefydd mor werthfawr yn eu golwg ag ydyw i Gristnogion eraill.

Y mae'r fath beth a ffurf o grefydd, gref, ddofn, syml, yr hon nid yw yn gosod terfynau ar feddwl ac ymofyniad, nad yw yn ofni dim y dichon gwyddor ei brofi, ni theimla unrhyw berygl oddiwrth y feirniadaeth lymaf ar y Beibl—gan ei fod yn dal fod pob gwirionedd, nad yn mha le bynag y bydd—yn ddwyfol, ac i'w dderbyn a'i anrhydeddu fel y cyfryw. Y mae yn grefydd y gwyddom ni fel Undodiaid, oddiar brofiad hir, ei bod yn ategol a chynorthwyol. Nid yw yn gorchymyn credu hyn a chredu'r llall, fel dirgeledigaethau i'w derbyn heb holi. Dywed wrthym am i ni edrych ar yr athrawiaethau, yn ogystal a'r ffeithiau, yn eu gwyneb, ac addoli gyda llygaid ein meddwl yn llawn agored. Crefydd yw i fyw wrthi; a chrefydd yw ag y mae llawer o ddynion duwiol a da, ie, a phlant, y rhai a adwaenwn yn eu dydd, wedi ei phrofi yn grefydd rhagorol i farw wrthi.

Llefaraf fel un wedi ei eni a'i fagu yn Undodwr, neu sydd wedi cael yn y pethau a ddysgwyd iddo yn blentyn, y pethau y mae yn hyderu fwyaf ynddynt, ac yn byw fwyaf wrthynt yn awr pan y mae yn ddyn. Nid wyf yn gwneyd ymddiheurad fy mod yn Undodwr. Nid wyf yn gwneyd amddiffyniad. Ymffrostiaf fy mod yn Undodwr. Y mae cryn lawer o gytundeb yn mhlith yr Undodiaid yn mherthynas i brif fanau eu cred grefyddol, ac y mae hyny yn ffrwyth eu dewisiad eu hunain, ac nid am eu bod wedi eu gorfodi. Y mae *test* athrawiaethol yn beth na wyddys dim am dano yn yr eglwysi a elwir yn Undodaidd, a gwnelai'r cais i ddwyn un i fewn beri storom o wrthdystiad yn union.—*R.T.H.*

Gellir cyfrif mis Hydref eleni fel yr enwocaf o fisoedd y flwyddyn am ei drychinebau alaethus—y fath gydgyfarfyddiad o ddigwyddiadau trist yn yr awyr, ar y mor, ar, ac o dan y ddaear. Y mae pwlpidau'r wlad wedi dangos awydd i gysoni'r pethau hyn â Rhagluniaeth ddwyfol. O'r braidd y gellir cyfrif fod y cwestiwn yn codi o gwbl gyda'r digwyddiadau eu hunain. Os bydd gyriedydd yr *engine* yn esgeuluso dal sylw ar y *signals*, os bydd anturiaethwr yn ymgymeryd â gwneyd arbrawfiadau (*experiments*) gyda'i awyrlongau, os bydd y morwr yn gollwng ei *cigarette* gyda thân ynddi i lawr i geudod llong llawn nwy, os bydd y glowr yn tanio ei bibell ac yn achosi tanchwa, o'r braidd y gellir ei gyfrif yn beth iawn i osod y canlyniadau at gredit y Bod mawr.—*E.W.*

Yn wastad gyda Duw.—Dysgwch eiriau yr emyn, a meddyliwch am danynt pan ddaw dyddiau trallod a galar. Nid doeth, fodd bynag, gadael i'r meddwl aros llawer uwch ben tristwch bywyd gyda phlant bach; ond y mae'n dda ambell waith i feddwl am y pethau trist na ŵyr y plant ddim am danynt. Fe ddichon y fam fod yn glâf; neu fe all Rhagluniaeth symud ymaith rywun y byddwn yn ei fawr garu. Yn wir, ni a wyddom y bydd iddo ein cymeryd i ffwrdd i gyd ryw amser. Gallwn ddywedyd "Amen," hyny yw, felly y bo, gyda llawn hyder ffydd os cadwn mewn côf fod Duw gyda ni yn wastad. Er i mi rodio drwy lyn cysgod angau, nid ofnaf niwed, canys yr wyt Ti gyda mi.

Y Duke of Portland.—Yr oedd y Duke yn llefaru yn Nottingham yn ddiweddar, ac eb efe, "Pan gwrddais ag anlwc yn ddiweddar meddyliais y byddai'n dda i mi pe'r ymdrechwn fyw heb y gwirodydd meddwol o un math. Byth oddiar y gwnaethum hyny, teimlaf fy mod yn well dyn yn mhob rhyw fodd. Yr wyf yn codi yn y bore heb un math o ferw yn fy mhen, yr wyf yn teimlo y gallaf wneuthur gwaith y dydd yn well, ac yn wir yr wyf yn credu y byddaf byw rai blynyddau yn hwy. Pair hyn i ni gofio am yr englyn:—

Cofia ddifrodwr cyfoeth—anfuddiol,
It' feddwi fel annoeth;
Cofia'n ail y cefn noeth—
Gwely drain a gwyl dranoeth.—E.T.(H.)

Trwyno Heresi.—Duwinydd anghydffurfiol enwog a Phroffeswr yn Bradford yw Dr. Duff. Yr oedd wedi addaw pregethu yn yr Hallgate "Free Christian Church," ac yr oedd y gynulleidfa yn edrych yn y blaen gyda llawer iawn o ddyddordeb i'w glywed. Clywsant y newydd gan y gweinidog nad oedd e' ddim yn dod. Darllenodd y Parch. Percy Jones wifreneb (*telegram*) yn dangos fod llawer o wasgu wedi bod arno i beri i Dr. Duff dori ei gyhoeddiad. Awgrymai y wifreneb fod awdurdodau'r coleg yn ddisymwth wedi gosod rhwystrau difrifol ar ei ffordd fel ag i'w orfodi i dori ei addewid. Derbyniwyd yr hyspysiad gyda syndod. Yn ddiweddarach derbyniodd Mr. Jones lythyr oddiwrth Dr. Duff, yn yr hwn y mae'n egluro'r mater. Dywedodd Mr. Jones wrth ohebydd un o'r newyddiaduron fod yr holl gynwrf wedi tarddu yn Nghapel Cynnulleidfaol Hallgate, lle'r oedd Mr. Jones unwaith yn weinidog, a lle'r oedd gweinidog arall wedi hyny wedi ei dori allan. Dealler, fe drowyd Mr. Jones gyda'i gynulleidfa bresenol allan o'r eglwys hono.

Cancer a'r Alcohol.—Y mae cancer yn ddau amlach yn mhlith darllawyr a thafarnwyr ag yw yn mhlith pregethwyr. Y mae fy

mhrofiad i o'r clefyd hwn yn fy ngalluogi i ddywedyd wrthych ei fod yn fwy cyflym ac yn fwy poenus yn ei waith yn mhlith y rhai sydd yn cymeryd alcohol; a bod y defnydd helaeth o hono yn ychwanegu yn fawr at y cyflymdra a'r tostrwydd y bydd y clefyd yn cyflawni ei waith. Nid wyf yn dywedyd fod cymeryd alcohol yn achosi cancer, ond y mae yn sicr yn lleihau gallu dyn i wrthsefyll ymosodiad y clefyd alaethus hwn, ac yn ei wneuthur yn ysglyfaeth rhwyddach iddo.—*Sir A. Pearce Gould, M.D.*

Miss Florence Nightingale.—Mewn cylchgrawn eglwysig o'r enw "*Dawn of Day*," ceir bywgraffiad o'r foneddiges uchod, yr hon a ddesgrifir fel eglwyswraig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid yw, fodd bynag, yn rhoddi un prawf mai eglwyswraig oedd. Mewn adolygiad o'i bywgraphiad yn y "*Daily Chronicle*," gan Syr Edward Coate, yr hwn sydd newydd ei gyhoeddi, desgrifir ei chrefydd fel "broad-minded Christianity." Dywed adolygydd o'r un llyfr yn y "*Daily Telegraph*" fod ei thad yn Undodwr. Undodwraig, hefyd, oedd hi eu hunan.

ROBERT COLLYER. — Dyfyniadau allan o'i weithiau.— *Y Winwydden a'i Changenau:* Pan oedd Thomas Carlyle yn anerch y myfyrwyr yn Edinburgh, yr oedd y neuadd yn llawn, nid o Ysgotiaid yn unig, ond o ddynion oedd wedi tyru i fewn o barthau pellenig Lloeger ac Ewrop, i eistedd wrth ei draed, ac i yfed ei eiriau i fewn. Iddynt hwy, efe oedd y winwydden, hwythau y canghenau. Pan ddaeth Emerson i'n dinas ni, yr oedd yno rai yn eistedd wrth ei draed na wrandawent ar un dyn byw arall. Efe oedd y winwydden iddynt hwy, a hwythau'r cangenau. Yr oedd yr enaid mawr wedi eu cymeryd i fewn, ac wedi cyfranu ei fywyd iddynt.

Barn Gyfiawn: Credaf mewn dydd barn a ddaw o'r diwedd i bawb eneidiau, y gall dau enaid sefyll gyda'u gilydd o flaen yr orsedd wen, un gyda llawer o bethau drwg i roddi ateb am danynt, a'r llall gydag ond ychydig; ac eto fe all y dyn a ymddengys yn waethaf fod y goreu, am ei fod wedi gorfod brwydro dan lawer o anfanteision, tra'r oedd pob peth yn ffafr y llall. "Paham na wnaech ch'i ymdrech i ddarostwng eich nwydau, unwaith ac am byth," ebe cyfaill i mi, pregethwr hefyd, wrth un o'r trueiniaid pechadurus hyn. "Doctor," ebe yntau, "yr wyf wedi ymdrechu llawer, ac yn galetach, mi gredaf, ugeinwaith nag y bydd angen i chwi, ac wele nid wyf ond pechadur gwael o hyd."

Yn y Nefoedd, Ar y Ddaear: Yr wyf yn meddwl mai'r dyn mwyaf cyfan ei galon adwaenais i erioed oedd un a fu'n aros ac yn gwylied, yn tori ceryg ar bob tywydd ar ysgwydd oer un o fryniau swydd Efrog, pan o'r braidd y gallai wel'd y ceryg oedd ganddo i'w tori gan

mor ddall oedd. Yr oedd ei wraig wedi marw, a'i blant i gyd, ei fwthyn yn agored i'r wybren, ac i sêr oer y gaeaf; ond pan ddywedodd un wrtho i'w gysuro, "Frawd, chwi fyddwch yn y nefoedd cyn bo hir!" Atebodd yn llawen, "yr wyf yno er's deng mlynedd!" Ac felly, o'r diwedd pan ddaeth yr angel i'w gymeryd ymaith nis diosgwyd ef, ond cafodd ei arwisgo â llyncwyd yr hyn oedd farwol gan fywyd.

Peidiwch byth anobeithio: Nis anobeithiaf byth mwy am ddim. Os addfeda hedyn bychan o ddaioni, ni chollir yr hedyn bychan byth. Un o'r menywod gwaethaf fu gyda ni erioed, ebe *matron* un o'r carchardai Saesnig, oedd un a welwyd un dydd yn wylo uwchben blodeuyn llygad y dydd. Wel, meddyliaf i angylion Duw weled y fenyw hono yn wylo, ac iddynt fyned a'i adrodd yn y nefoedd, ac yr oedd yno lawenydd mawr, canys hwy a wyddent y gwnai'r blodeuyn bychan prydferth rhywfodd, rhywle, rhywbryd, ei dwyn hi a chael eu dwyn ganddi drwy y pyrth aur i'r nefoedd wen.

Ffydd i farw wrthi: Telais ymweliad â gwersyll Douglas*, eisteddais yn mwthyn dyn claf, carcharor o'r De. Ebe efe, "Ai gweinidog ydych?" Atebais, "Ie." "Pa fath, Baptis?" "Nage." "Methodist?" "Nage." "Presbyteriad?" Yr oeddwn am wel'd pa mor bell y gallai fyned, a dywedais eto, "Nage." Tybiaf mai dyna'r oll y gwyddai am danynt, canys agorodd ei lygad mewn math o syndod, ac ychwanegodd, "Beth ynte?" Atebais, "Undodwr." "Ah," ebe fe, "ni chlywais i ddim am danynt hwy o'r blaen. Beth maent yn ei gredu? Dywedais wrtho ein bod yn credu mai ein Tad ni ydyw Duw, a'i fod yn cymeryd dyn am yr hyn yw, ac nid am yr hyn ddwed, a'i fod ar ol marwolaeth yr un cymaint Dad ag o'r blaen. "Wel," ebe'r dyn, "Chlywais i erioed o hynyna o'r blaen; ond y mae yn wir. Dewch yma eto i fy ngweled." Mi aethum, credaf, ar y trydydd dydd, ond yr oedd y bwthyn yn wag. Yr oedd wedi myned at y Tad.

Duw a'r fenyw: Stori dda, allan o lyfr printedig. "Sioned," ebe'r gweinidog, "nid oes dim ynoch chwi ag sydd yn teilyngu i chwi eich achub. Tybiwch 'nawr fod Duw yn y diwedd yn gadael i chwi gael ddropio i lawr i uffern, be 'wedech chi am hyny?" Yr oedd Sioned ar ei gwely angeu. Yr oedd wedi bod drwy ei hoes yn y cysgod tywyll hwnw, ei bod yn bosibl wedi ei harfaethu i'r pwll. Ond yr oedd wedi gorwedd yn dawel am hir amser yn ei hystafell yn ystod ei chlefyd trwm, ac yr oedd ei henaid yn awr ac yn y man, gyda rhyw amlygrwydd clir, wedi cael cipdrem ar fflach y Goleuni Tragwyddol sydd ar brydiau o'r fath yn cyffwrdd yr enaid o'r wlad hono lle mae'r Arglwydd Dduw yn Haul. "O, weinidog," ebe Sioned yn dawel, credwch fi, fe wna Duw â mi yn hollol yr hyn y mae yn ei fwriad i'w wneud. Nis gallaf ddyweyd beth a wna. Ond gwn hyn:

*Adeg y Rhyfel Cartrefol yn yr Unol Dalaethau.

Efe a'm gwnaeth: gwaith ei ddwylaw ydwyf; ac os gesyd fi i lawr yn uffern, fe gyll fwy wrth wneud hyny na chollaf fi wrth ei oddef."

Ffydd y Plant: Pan aeth Dr. Arnold i Rugby, yr oedd yr ysgol mewn rhyw gyflwr truenus iawn, ac ystyrid ei bod yn beth deheuig a gwrol i gyflawni rhai o'r pethau mwyaf gwael; ac wedi hyny i dwyllo'r athraw yn eu cylch. Ni chymerai Arnold arno am foment i gredu ei fod yn cael ei dwyllo. Dywedai yn ymarferol, "Fechgyn, ni chredaf yn eich llygredigaeth," ac yna'r oedd y bechgyn i gyd yn dweyd—"Y fath gywilydd yw, i ddweyd anwiredd wrth Arnold, ac yntau yn credu pob gair;" ac yna'n raddol darfu i ffydd Arnold ynddynt losgi i fyny yr holl anffyddlondeb oedd yn eu calonau. Credwch yn mhresenoldeb Duw yn y plentyn, ddywedaf fi!

YMSON Y MYFYRIWR.

PAN y derbyniais nodyn oddi wrth Mr. Jenkins yn fy ngwahodd i gyfarfodydd can-mlwyddol Bwlchyfadfa, ni fum mewn nemawr betrusder ynghylch pa ateb i roi iddo. Dim ond un ateb oedd yn bosibl—ateb cadarnhaol. Felly, y boreu penodedig, cychwynais yn gynar, yn nghwmni tri o gyfeillion eraill. Ar y ffordd cawsom achos i ameu ein doethineb—os nad yn wir i amheu rhywbeth arall gwaeth na hyny—i gychwyn o gwbl; oherwydd, trwy y boreu, bu y duw *Pluvius* yn ein bygwth, ac weithiau yn rhy gyfeillgar â ni. Ond pan y meddienir dyn gan awydd cryf i wneyd rhyw orchwyl neu i gychwyn ar daith, nid yw un rhwystr, gan nad o ba natur bynag y byddo, yn ddigon i'w ddigaloni. Nis digalonwyd ni, fodd bynag, a chyrhaeddasom i gymydogaeth y Bwlch yn weddol brydlon. Nid llawer rhy brydlon, hefyd; oherwydd ni fuom yn hir cyn gweled pobl yn cyfeirio eu camrau tua'r hen fangre gysegredig; a buan y dilynasom ninau eu hesiampl. Wrth fyned tua'r capel, gwelwn ambell i wyneb hen adnabyddus i mi; ond, ysywaeth, yr oedd y mwyafrif yn ddieithr. Bu adeg pan yr adnabyddwn gynnulleidfa y Bwlch yn weddol lwyr. Ond y mae yr adeg hono wedi myned heibio; ac "wele,

GWNAETHPWYD POB PETH YN NEWYDD"—

capel newydd, gwynebau newydd, gydag ambell i wyneb ag ôl ystormydd bywyd hir yn argraphedig arnynt, fel pe i gadw i fyny y cysylltiad rhwng yr hen a'r newydd. Wrth fy mod yn eistedd yn y capel, ac y taflwn olwg dros y gynulleidfa, dygwyd y ffaith hon adref

ataf mewn modd mwy nerthol fyth—y ffaith fod yr hen wedi diflanu bron yn llwyr, un ar ol y llall, a chenedlaeth newydd wedi dod i'w lle. Ond, a chymeryd i ystyriaeth amcan y cyfarfod, credaf fod y ffaith uchod yn fy ngosod mewn safle well, mwy ffafriol, i daflu fy ngolwg yn ol dros yr amser a fu, a'm galluogi i fyw yn y gorphenol am ychydig amser. Dyna fûm yn wneyd yn ystod y cyfarfod—byw yn y gorphenol—myned yn ol ar edyn dychymyg dros y can mlynedd diweddaf. A chefais gryn gynorthwy i wneyd hyny yn llwyddianus gan y ddau bapyr galluog y cefais y fraint o wrandaw arnynt. Bwriedais gymeryd nodiadau o'r prif ffeithiau a enwid ynddynt. Ar ddechreu'r papyr cyntaf, tynais fy llyfr nodiadau a'm pwyntel o'm llogell i'r dyben hwn. Ond ar derfyn y cyfarfod dyma'r cwbl oedd ysgrifenedig arno :—"Mr. J. R. Thomas, capel cyntaf, 1813. Yr Eglwys ychydig fisoedd neu flwyddyn cyn hyny." Fe'm llyncwyd i fyny mor llwyr gan ddyddordeb yr hanes, fel yr anghofiais y llyfr a'r pwyntel. Dodais hwy, yn debygol, yn fy llogell eilwaith ; o leiaf, dyna lle y cefais hwynt pan aethum i chwilio am danynt. Yr oedd llawer iawn o'r hanes yn mhell tu ol i'm heinioes i ; eithr nid oedd fymryn llai dyddorol oblegid hyny ; nac ychwaith yn llai dyddorol oblegid fy mod yn gyfarwydd â llawer o hono. Y mae'r gallu i ysgrifenu hanes fel ag i fod yn ddyddorol, fel y dywedir, yn

Nodyn o Athrylith.

Gan nad beth am hyn, yr oedd y rhan hanesiol o'r papyr cyntaf yn neillduol o ddyddorol. Ond pan y darlunid y cymeriadau fuont yn dwyn pwys a gwres y dydd yn y Bwlch yn ystod y ganrif, neu (yn fwy cywir) yn ystod yr haner canrif diweddaf, teimlwn fod y dyddordeb yn cynyddu yn gyflym. Yr oeddwn, i ryw fesur, yn gyfarwydd â llawer o'r cymeriadau hyn. Ac yr oedd y portreadau roddid o honynt yn eu gwneyd, er wedi marw, yn fyw eto. Dynion ardderchog oeddent—nid dynion perffaith o bossibl, ond dynion oeddynt a'u holl galon yn y gwaith da er hyny. Ac y mae'r goffadwriaeth am danynt yn fendigedig. A da y gwnaeth y cyfeillion yn y Bwlch i neillduo diwrnod arbenig i goffhau am danynt. Mwy dyddorol i ni fel dieithriaid na hyd yn oed hanes y dyddiau hyn, fodd bynag, oedd y

Cyfeiriadau at y Gweinidogion

fuont, yn ystod y ganrif, yn dal i fyny faner crefydd ryddfrydig yn y lle, megis Dafis Castellhywel, Gwilym Marles, William James, ac ereill. Y mae enw Dafis yn adnabyddus i bob Cymro llengarol. Nid yw Gwilym, eto, mor adnabyddus. Dywedaf *eto*, am y credaf mai yn y dyfodol y mae ei boblogrwydd ef. Y mae yn rhy agos atom i ni fedru gwerthfawrogi ei fawredd. Pa nifer o blant, ie, pa nifer o drigolion pentref—begian pardwn, tref—Llandyssul, sydd yn gwybod dim am dano. Dyna ffawd dynion mawr—eu bod, am dymor, yn syrthio i fwy neu lai o ebargofiant; nis anrhydeddir hwynt hyd yn

oed yn y gymydogaeth y ganwyd hwynt ynddi nac yn y cylch y buont yn llafurio ynddo. Dyma stori—stori wir hefyd—am Darwin. Aeth dyn, a fwriadai ysgrifenu bywgraphiad o Darwin, i'r Amwythig, ei le genedigol, i'r dyben o loffa ffeithiau na allai ddod o hyd iddynt, fel y tybiai, ond trwy ymchwiliad yn y lle y gwelodd oleuni dydd gyntaf, yn mhlith y rhai (fel y tybiai) oeddent gyfoedion iddo. "O," meddai un dyn wrtho, pan ddeallodd beth oedd ei neges, "yr Amwythig yw'r lle olaf y dylech ddod iddo am wybodaeth ynghylch Darwin. Nid oes yma neb yn gwybod dim am dano." Tebyg fod tipyn o ormodiaeth yn hyn; ond o dan yr ormodiaeth y mae gwirionedd. A'r gwirionedd yw—mai rhywbeth gwamal yw poblogrwydd dynol. Dyna'r gwir am

GWILYM MARLES;

nid yw, *eto*, wedi esgyn i'w orsedd haeddianol. Ond fe ddaw'r dydd. Beth pe bae Undodiaid plwyf Llandyssul yn gosod mudiad ar droed i adeiladu cofadail iddo? Yna, fel ysgolhaig, meddyliwr, a phregethwr, nid yw Mr. James yn anheilwng i'w restru gyda hwynt—y ddau uchod. Yr oedd Mr. James yn un o'r pregethwyr goreu y cefais i y fraint o wrandaw arno. Ni welais mo Gwilym ond dwywaith erioed—ni chlywais ef ond unwaith: yr unwaith hono oedd y gymanfa gerddorol yn Nghapel-y-Groes yn 1872 (ie, yn 1872, os nad wyf yn camsynied) pan oedd Mr. John Lloyd y pryd hyny o Bantywilco, yn awr o Drefach, Llanwenog, yn arwain. Bu Gwilym yn siarad yn un o'r ddau gyfarfod. Y mae genyf gôf i mi ei weled; ond yr oeddwn yn rhy ieuanc i graffu ar yr hyn ddywedwyd ganddo, nac ychwaith ar ei ddull o siarad. Ond adnabyddwn Mr. James yn dda—cefais y fraint o ddod i gyffyrddiad agos âg ef; ac yr oedd yn un o'r dynion mwyaf hynaws a charedig ei yspryd y daethum i gyffyrddiad âg ef erioed. Colled anrhaethol i'r weinidogaeth oedd ei ymneillduad i fywyd masnachol; a cholled mwy anhraethol fyth achoswyd gan ei enhuddiad. Y mae'r lle a adawyd ganddo yn wâg, yn wâg eto. Pan yn ymweled â rhyw ran o ddyffryn Clettwr, teimlaf fy mod mewn cymydogaeth sydd wedi ei chysegru gan lafur gweinidogaethol y dynion mawr ac ardderchog hyn. Trueni na wneid ymgais gan rywun cymhwys—a phwy sydd yn fwy cymhwys na'i ferch—i gadw coffadwriaeth Gwilym yn fyw trwy fywgraffiad o hono. Trueni na wneid yr un peth yn achos Mr. James.

Wel, y mae cyfarfodydd can-mlwyddol Bwlchyfadfa yn mhlith y pethau a fu. A ydynt yn debyg o

ATEB RHYW DDYBEN YMARFEROL?

Amser a ddengys. Y mae dwyn i gôf yr hyn a fu yn waith dymunol—yn enwedig pan y mae'r digwyddiadau a'r cymeriadau a goffhëir yn ddymunol. Ond os mai dyna'r cwbl a wneir, gweithred di-ddyben iawn ydyw. Dylai'r meddwl am ymdrechion hunanaberthol y tadau ein symbylu ni ydym wedi myned i fewn i'w llafur

hwynt i ymgyflwyniad mwy aiddgar i waith dros yr achos da. Nid digon ydyw i ni i fyw ar yr ymborth ddarparwyd i ni gan y tadau. Nid gorphwys ar ein rhwyfau, ond ymdaflu yn gorph ac enaid i'r frwydr y buont hwy yn chwareu rhan mor odidog ynddi—

Dyna yw ein dyledswydd ni.

Yn hanes cynulleidfa Bwlchyfadfa y mae canrif newydd wedi gwawrio—canrif yn nghwrs yr hon yn ddiamheuol y cymer llawer o gyfnewidiadau pwysig le mewn byd ac eglwys—yn nghwrs yr hon y teflir llawer o hen syniadau ar y naill du, y cyll y teimlad sectol ei afael ar ddynion, y syrth sectyddiaeth i anfri, ac y daw'r eglwysi o bob enwad yn nes at eu gilydd. Nid colled fydd hyn, ond enill—ie, enill mawr iawn. Ac yna, y mae yn bossibl—ie, yn debygol—fel y dywed Mr. Gibbon, Llywydd yr Undeb Cynnulleidfaol Saesneg, y daw o'r marweidd-dra a'r difaterwch a nodwedda'r byd crefyddol drwyddo yn ein dyddiau ryw fudiad newydd a una yr eglwysi, ac a ragora arnynt. Efallai na allwn ni wneyd llawer i gyflymu dyfodiad yr adeg hyfryd hon. Ond gall pob un wneyd rhywfaint. A'n dyledswydd ni—dyledswydd pob un yn ei gylch ei hun - yw gwneyd y rhywfaint hwn, bydded fawr neu fach. Dyledswydd pob addolwr ym Mwlchyfadfa yw gwneyd y rhywfaint hwn ym Mwlchyfadfa. Dyledswydd pob addolwr mewn manau eraill yw gwneyd y rhywfaint hwn yn y lle y mae eu llinynau wedi syrthio ynddo. Ond nid yw'r ddyledswydd hon mewn un modd yn gyfyngedig i rai ydynt eisoes yn weithwyr yn y gwahanol winllanoedd crefyddol. Yn nghymydogaeth Bwlchyfadfa, fel yn mhob cymydogaeth arall, y mae yna liaws, yn ddiameu, a gadwant eu hunain yn mhell y tu allan i'r caerau. Gwn y cydymdeimla llawer o honynt ag achosion crefydd ryddfrydig, lle bynag y maent. Gwn fod y cydymdeimlad hwn yn un diledryw. Ac eto hwyrfrydig iawn ydynt i wneyd dim i droi eu cydymdeimlad yn gynorthwy i wneyd yr achosion hyn—pob un i wneyd un o honynt—yn fwy dylanwadol er daioni. Os digwydd i rai o'r dosbarth hwn weled y llinellau hyn, fy nghenadwri iddynt yw hon—

Rhowch eich Cynorthwy,

yn ychwanegol at eich cydymdeimlad, i'r achos da; y mae angen eich cynorthwy; llafuriodd ac aberthodd y tadau lawer er eich mwyn chwi; gwnewch chwithau yr un peth er mwyn y cenedlaethau a ddêl; cyd-restrwch eich hunain yn y fyddin gyda'ch brodyr a'ch chwiorydd. Nid wyf mewn un modd am gyfyngu'r genadwri hon i gymydogaeth Bwlchyfadfa, er mai Bwlchyfadfa yw testyn y llith hwn. Y mae'r un genadwri yn gymhwysiadol i bob cymydogaeth. Llwyddiant ein hachosion yn mhob man, mi gredaf, sydd agosaf at galon pob carwr rhyddid a daioni. A mynegair mawr y ffordd i lwyddiant achosion crefyddol yw—cydweithrediad.

Myfyriwr.

YMWELIAD A CANADA A'R UNOL DALAETHAU.

[PARHAD].

Yr oedd fy nhaith nesaf i Boston prif ddinas Massachusetts, yr hon sydd yn gorwedd oddeutu dau can milltir i'r Gogledd Ddwyrain o New York. Un bwriad oedd genyf mewn golwg oedd bod yn bresenol yn

Nghynadledd Fawr Gydgenedlaethol yr Undodiaid

a gynelid yno yr wythnos olaf o Fedi. Bwriad arall oedd gweled y ddinas lle y trigianai llawer o arwyr fy ieuenctyd, megis Dr. Channing, Theodore Parker, Charles Sumner, Lloyd Garrison a llawer ereill, y rhai a lafuriasant dros ryddid yn eu dydd a'u cenedlaeth. Saif Boston ar lan yr afon Charles am yr hon y mae Longfellow wedi canu mor swynol, ac y mae yn un o'r porthladdoedd mwyaf pwysig ar Fôr y Werydd. Erbyn hyn mae y boblogaeth yn agos i dri chwarter miliwn. Oddiar amser Dr. Channing mae y ddinas wedi cyfnewid llawer iawn. Mae yr hen heolydd lle yr oedd llawer o enwogion yn byw dri chwarter canrif yn ol yn awr yn meddiant Eidaliaid, Groegiaid, a Phabyddion Gwyddelig. Mae yr olaf yn elfen luosog iawn, a dywedir y llywodraethir y ddinas ganddynt. Yn amser

Dr Channing

y daeth yr achos Undodaidd i sylw neillduol yn America ac efe oedd eu hapostol mwyaf grymus. Aethpwyd a'r planhigyn Undodaidd cyntaf yn groes i'r Werydd gan y Parch. William Hazlitt, M.A., gweinidog parchus yr Eglwys Undodaidd yn Maidstone; a'r cyntaf i fabwysiadu ein ffydd yn Boston oedd yr Hybarch Ddoctor Freeman, tadcu yr enwog Ddoctor James Freeman Clarke, yr hwn a adwaenwn yn bersonol. Y pryd hwn, sef ychydig dros ganrif yn ol, Calfiniaeth oedd yr athrawiaeth a bregethid yn gyffredinol yn Nhalaeth Massachusetts a'r cylchoedd, ond er hyny yr oedd amryw weinidogion yn coleddu syniadau mwy rhydd a rhesymol. Pan dorodd Undodiaeth allan yn yr Eglwysi Annibynol dan arweiniad Dr. Channing, yr hwn a ddechreudd ei weinidogaeth yn 1803, cafodd y mudiad gefnogaeth gyffredinol yn Boston a'r cylchoedd, a byth oddiar hyny mae y lle wedi bod yn brif gartref a meithrinfa ein ffydd. Er fod ymsefydlwyr o wledydd pellenig wedi goresgyn hen heolydd y ddinas, y mae disgynyddion yr hen Undodiaid wedi ymneillduo yn mhellach i'r wlad i'r *suburbs* newyddion lle maent yn parhau yn ffyddlon i ffydd eu tadau, ac yn cynal eu heglwysi ar raddfa dywysogaidd. Yn Boston mae Undodiaeth yn boblogaidd, a pherchir ei phroffeswyr fel pobl resymol a theilwng o ymddiried.

Gelwir y ddinas yn Boston ar ol Boston yn Swydd Lincoln, yn Lloegr, o ba le y daethai rhai o'i phrif sefydlwyr yn 1620 a 1630. Ymadawsant â'r wlad hon o achos erledigaeth a thalasant bris uchel am eu rhyddid, yn eu holl ddioddefiadau. Naturiol yw i le wedi ei sefydlu o dan y fath amgylchiadau fod yn bleidiol i

Ryddid Gwladol a Chrefyddol.

Gwnaeth Boston ei rhan i sicrhau anibyniaeth yr Undeb y rhan olaf o'r ddeunawfed ganrif. Pan oedd y wlad yn perthyn i Brydain Fawr gormesid hi yn dra chreulawn gan yr awdurdodau gartref. Gosodid trethi uchel ar y nwyddau a gludid i borthladdoedd America, ac ni chaniateid un llais i'r preswylwyr yn ngwneuthuriad deddfau'r wlad. Ar yr 16eg o Ragfyr, 1773, daeth llong i borthladd Boston a llwyth o dê, ar yr hwn y gosodid treth uchel. Ymgymerodd

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

———:o:———

YR ✠ YMOFYNYDD

CYLCHGRAWN MISOL Y GYMDEITHAS
. . . UNDODAIDD GYMREIG. . . .

———:o:———

GOLYGYDD—
Y PARCH. T. ARTHUR THOMAS, LLANDYSSUL.

———:o:———

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

———:o:———

— *CYFRES YR UGEINFED GANRIF.* —

———:o———

CYFROL 13.

— 1913. —

LLANDYSSUL:
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER.

CYNHWYSIAD.

Abdul Baha, 50.
Adnodau'r Gair, 63.
Adolygiadau, 234.
Adroddiad yr Ysgrifenydd, 193.
Aflwyddiant yr Eglwysi, 73.
Anerchiad y Parch. Gwilym Evans, B.A., 208.
Ar Bont Capel Cynon, 84, 107, 132.
Ar Edyn Ffydd, 1, 49, 97, 145, 169, 241, 265.
Arholiad yr Ysgol Sul, 135.
Athrofa Undodaidd Berkeley, U.D.A., 240.

Barddoniaeth :—
Aelwyd y Cymro, 248.
Beth Geisiaist, 191.
Blwyddyn Newydd, 22.
Can y Glowr, 97.
Chwarddodd y Fro, 248.
Colli'r Llanw, 199.
Dau Englyn i'r Yswiriant Cenedlaethol, 178.
Du a Gwyn, 97.
Emyn, Llongau Buain, 49.
Emyn y Plant, 145.
Er cof am Evan Daniel, 191.
Gwanwyn, 119.
Gwisg y Goruchaf, 233.
Gwroniaid y manau cudd, 6, 64, 109
Machlud Haul, 216.
Mawl i Dduw, 241.
Mordaith Bywyd, 151.
Salmau Coffa, 264.
Sul yn Sal, 216.
Tlysni Mehefin, 144.
Wele, yr wyf yn sefyll, &c., 240.
Ymddiriedaeth yn Nuw, 169.
Ymson Plentyn, 95.
Y Crwydryn, 216.
Y diweddar David Morgan, Moelfre, 55.
Y diweddar Thomas Jones, Henbant, 89.
Y Llwybr, 1.
Y Nos, 216.

Boyd, Carpenter, a Tennyson, 22.
Brenin y Dychryniadau, 124.
Bryniau Cassia, 243.

Cenadwri Cristionogaeth Ryddfrydig, 152.
Coleg Caerfyrddin, 193.
Collyer, y Parch. Robert, 4, 268.
Credoau, 29.
Credo St. Athanasius, 2.
Cylchgrawn Cymraeg cyntaf, 22.
Cyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig, 206.
Cyfarfodydd Can-mlwyddol Bwlch-y-fadfa, 280.
Cymdeithas Addysgol y Myfyrwyr, 24, 48.
Cymanfa Gerddorol Ceredigion, 165.
Cymdeithas Undodaidd De-Ddwyrain, 264.
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru, 111.

Daniel Evelyn, Heretic, 149.
Davies, y Parch. J. Glynne, 193.
Dewi Sant, 101.
Dickens, Charles, 260.
Dr. Tudor Jones, 243.
Dr. Zimmer, 198.
Dros y Dòn, 8.
Digwyddiadau Nodedig, 13, 62, 86.
Duw'r Diddanwch, 127.

Edward Everett Hale, 175.
Eglwys Babaidd, Yr, 98.
Enwadaeth, 235.
Etholedigaeth, 24.

Fairbairn, Dr. 259.

Gair ar Grwydr, 195.
Gair o'r Gadair Genedlaethol, 200.
Gibbon, y Parch. J. M., 121, 244.
Gors Goch, Hen Gladdfa, 93.
Gweddi, 1.
Gweithredoedd ; amgylchiadau ddylid ystyried, &c., 76.
Gwilym Gwenog, 172, 223.
Gwilym Marles, 11.
Gwroniaid y mannau cudd, 6, 64, 109.

Heresi, 174.
Heresi yn mhlith y Wesleyaid, 212.

John Penry, 257, 278.
Jones, y Parch. J. D., 147.
Judas Iscariot, 260.

Kilsby Jones a'r Wenynen, 190.

Lister, Arglwydd, 259.
Llith J. J. T., 185.
Llithiau Myfyriwr, 14.
Llyfr Gweddi Gyffredin, 16.
Lodge, Syr Oliver, 217, 243.

Manion ac Hanesion, 22, 47, 70, 91, 116, 141, 167, 189, 214, 239, 262, 284.
Marwgofion, 19, 44, 69, 90, 113, 138, 166, 187, 213, 237, 261, 282.
Marwolaeth Llenor Ieuanc, 43.
Marw'r mab o flaen ei dad, 233.
Mewn undeb mae nerth, 40, 59, 158, [182.
Morris, E. B. (Myfyr Hefin), 43.

Nefoedd ac Uffern, 229.
Niclas Siams, 31.
Nodau Defaid, 23.
Nodion y Mis, 242, 265.

Oddiar y Twr, 16, 50, 73, 98, 121, 170, 217, 244.

Pethau Newydd a Hen, 25.
Pere Hyacinthe, 259.
Pregethu a Phregethwyr, 176.
Priodasau, 44, 68, 90, 113, 213, 237, 284.
Pwyllgor Cynghorol, 117.

Rees, y Parch. D. G., 119.
Rhinweddau Amheus, 231, 255.
Rhyddfrydig, Y Mudiad, 98.
Rhyfel Twrci, 170.
Rowland Williams, Dr., 12.

Sarnicol, Bardd Cadeiriol 1913. 204.
Sassiwn y Methodistiaid, 146.
Sectyddiaeth yn Nghymru, 186.
Sut yr aeth y byd i ben, 18.

Tegell a'r Tebot, 66.
Troad Allan o'r Llwyn, 120.
Thomas Thomas, y Parch, 13.

Y Ferch Ieuanc a'i Phump Brawd, 5.
Y Gymdeithas Brydeinig, 217.
"Yr Ymofynydd," 67.
Ysgol Pontsian, Adgofion am, 11.
Ymson y Myfyriwr, 2, 29, 52, 101, 146, 220, 270.
Ymweliad a Canada a'r Unol Dalaethau, 36, 56, 81, 103, 162, 179, 225, 249, 274.
Yn Anghof Ni Chant Fod, 259.
Yr Ymchwil am Ddedwyddwch, 254.
Yr Yspryd yn Galilea, 88.

trigolion Boston a'r gorchwyl o'i daflu i gyd i'r afon Charles, fel na chai Sior y Trydydd ddim budd oddi wrtho. Dywedir mai gwael iawn yw tê America wedi bod byth oddi ar hyny! Gan nad beth am hyny, bu y digwyddiad hwn yn un o'r achosion i sicrhau anibyniaeth i'r Unol Dalaethau, yr hwn a wnaed yn 1789 pan roddwyd Cyfansoddiad Awdurdodedig i'r Undeb ac yr apwyntiwyd

GEORGE WASHINGTON

y Llywydd cyntaf. Gelwir prif heol Boston yn Washington Street ar ol yr arwr, ac y mae yn naw milltir a deugain a haner o hyd. Y mae hen heolydd y ddinas yn geimion ac afreolaidd, ond mae y rhanau diweddaraf yn syth, llydan, a destlus iawn. Yn nghanol y ddinas mae parc hardd gydag arwynebedd o wyth a deugain o aceri, ac y mae wedi ei osod allan yn hardd. Mae ynddo goedydd lawer dan y rhai mae yn hyfryd ymgysgodi rhag gwres yr haul. Ar dir uwch yn gwynebu y *Common*, fel y gelwir y Parc, mae Beacon Street, lle mae llawer o dai a breswylid gynt gan enwogion. Yno y cartrefai Dr. Channing, a bum yn yr ystafell lle yr ysgrifenodd y "*Perfect Life*" a llawer o'i weithiau ereill ag ydynt wedi dylanwadu yn fendithiol ar yr holl fyd meddyliol. Mae un neillduolrwydd yn perthyn i aneddau goreu Boston. Maent braidd i gyd yn orchuddiedig gan yr hyn a elwir yn *Boston Ivy* sef y *Ampelopsis Veitchii*, y planhigyn tlysaf o'r *Virginian Creepers*. Dringa y muriau o hono ei hun hebgynorthwy dyfais dyn. Nid nepell o dŷ Dr. Channing, mae Senedd-dŷ'r dalaeth, yr hwn sydd adeilad eang a gorwych iawn. Coronir ei ben a nenfwd fawr oreuredig, ac oddifewn mae llawer o gerfluniau o'r radd uchaf, a gorchuddir y muriau ag arluniau dyddorol iawn yn cofnodi hanes y ddinas a'i hamgylchoedd. Ger llaw mae swyddfa fawr y Gymdeithas Undodaidd Americanaidd yr hon sydd yn brysur wrth y gwaith o ledaenu crefydd rydd. Ychydig yn is i lawr y mae *King's Chapel* lle y cyhoeddwyd Undodiaeth gyntaf yn America. Y mae yn ol arddull yr eglwysi a adeiladwyd gan Syr Christopher Wren yn y wlad hon. O flaen y fynedfa mae cysgodfa hardd ar golofnau cedyrn, ac uwchben y mae twr uchel. Mae y gladdfa o amgylch y lle yr hynaf yn y ddinas, ac y mae llwch llawer o enwogion yn gorphwys yno. O fewn i'r capel y mae nifer fawr o gof-feini hardd ar y muriau ac un er coffadwriaeth am y bardd ffraeth a'r proffeswr dysgedig,

DR. OLIVER WENDELL HOLMES,

yr hwn a garai y lle yn fawr. Pan ar ei wely angau gofynodd i'w fab a wnai drefnu i'w gorph gael ei ddwyn i'r hen gapel cyn ei gladdu. Wedi cael sicrwydd y gwneid hyny ehedodd ei enaid yn dawel at yr Hwn a'i rhoes. Yn yr un heol, Tremont Street, y mae hen gladdfa enwog arall, lle y claddwyd rhieni Benjamin Franklin a llawer o'u prif gydoeswyr. Tra yr wyf yn son am gladdfeydd enwaf un gladdfa arall, yr hon sydd yn anwyl iawn gan bobl Boston, sef Mount Auburn lle y claddwyd Dr. Channing a Longfellow y bardd yn nghyda lluaws mawr o ragorolion y ddaear. Mae ymweliad â'r lle, a dwyn i gof yr hyn a wnaethant dros eu gwlad a thros y byd, yn wir ysprydoliaeth. Yn Boston a'r cylchoedd teimlwn fy mod yn cerdded yn llwybrau gwir arwyr dynoliaeth. Yn eu plith saif

THEODORE PARKER

yn uchel fel pleidiwr rhyddid y caethwas. Yn Tremont Street, ryw ychydig bach o'r heol mae y *Melodeon* lle y pregethai mor rymus yn erbyn caethiwed a phob drwg. Cyfansoddai ei bregethau a llawddryll llwythog ar y bwrdd o'i flaen fel y gallai amddiffyn ei hun pe bai i'w elynion ei aflonyddu. Nis gallai pregethau wedi eu cyfansoddi o dan y fath amgylchiadau lai na bod yn

effeithiol. Er i'r pregethwr farw yn yr Eidal cyn i gaethwasiaeth gael ei difodi yn ei wlad, ni fu ei waith yn ofer. Wrth basio y Faneuil Hall yn yr un ardal, lle y safai i fyny i bleidio rhyddid y caethwas, tra y gwaeddai llawer o'i elynion oeddynt yn bresenol, "Lleddwch ef, Lleddwch ef," nis gallwn lai na meddwl yn barchus am dano. Nid pell o'r *Melodeon* ar gornel Tremont Street, yr ochr arall i'r heol mae eglwys iawnffyddol, lle y pregethid yn fynych yn erbyn athrawiaeth Theodore Parker. Am y bygythid pawb yno nad oeddynt yn iach yn y ffydd, gelwid y lle yn "*Hell-fire Corner*." Wrth yr enw hwnw yr adwaenir ef eto, gan ddinaswyr Boston.

Ar gwr isaf y *Common* mae gerddi hardd iawn a chyferbyn â'r rhai hyn mae Eglwys fawr Undodaidd Arlington Street a adeiladwyd gan gynulleidfa Dr. Channing pan ymadawsant a'u hen le o addoliad. Gerllaw mae cerflun hardd o Dr. Channing, ac yn agos ato gosodwyd i fyny yn ddiweddar gerflun o

Dr. Edward Everett Hale

gweinidog Undodaidd enwog arall yr hwn a fu am flynyddau yn gaplan y Senedd yn Washington. Yr ochr arall i'r heol mae Commonwealth Avenue, lle y triga llawer o brif bobl Boston. Mae yr holl ardal yn hardd nodedig, ac nid oes ryfedd yn y byd fod yr Americaniaid yn galw Boston yn "ganolbwynt y bydysawd." Ond fel cartref diwylliant y galwant y lle felly. Dipyn yn mhellach o'r *Common* mae Boylston Street lle mae llawer o adeiladau cyhoeddus gwir ddyddorol. Yno mae yr Eglwys Gadeiriol lle yr ymdyrai torfeydd, Sul ar ol Sul i glywed yr Esgob Phillips Brooks. Yno mae yr Eglwys Undodaidd lle y bu

Ralph Waldo Emerson

yn weinidog cyn iddo ymroddi yn hollol i lenyddiaeth. Mae yr eglwys hon fel Eglwys Arlington yn orchuddiedig gan y "*Boston Ivy*," ac yn yr Hydref mae yr olwg arnynt yn hynod hardd. Yn mhlith adeiladau godidog ereill yn yr un heol mae llyfrgell ardderchog Boston, mewn adeilad gorwych diail. Mae y muriau yn orchuddiedig gan arluniau o'r radd uchaf gan brif arlunwyr yr oes. Mae darlun tarawiadol yno o Syr Galahad, un o farchogion y Brenin Arthur, yr hwn oedd nerthol tu hwnt i bawb ereill am ei fod yn meddianu calon bur. Dyma y Llyfrgell Rydd fwyaf yn y byd a chynwysa dros wyth can mil o gyfrolau. Mae yr Amgueddfeydd, Orielau y Celfi Cain, a'r holl adeiladau cyhoeddus ar yr un raddfa uchel a'r Llyfrgell. Ar yr holl sefydliadau cyhoeddus mae diwylliant yn argraphedig.

Mae y Bostoniaid yn awyddus iawn i gadw mewn cof wrhydri eu henwogion. Nodir pob man, lle cymerodd rhyw ddigwyddiadau pwysig le, â chofgolofn neu faen cerfiedig ar y mur. Yn mhlith y cofgolofnau, enwaf y

Bunker Hill Monument

yn Charlestown yr ochr ogleddol i'r afon Charles. Oddimewn i'r golofn mae 294 o risiau, ac o'i chopa ceir golygfa eang o'r ddinas a'r wlad oddiamgylch. Cofnoda y frwydr gyntaf rhwng yr Unol Dalaethau a'r wlad hon, ar yr 17eg o Fehefin 1775. Ar ol ymdrechfa o dri diwrnod cafodd y Prydeinwyr y trechaf, ond gosododd George Washington warchae ar Boston, ac yn mhen naw mis gwnaeth i'r gelyn encilio. Yn y cerfiadau ar y colofnau a'r muriau cyfeirir at y Prydeinwyr fel "y gelyn," yr hyn nid yw yn swnio yn hyfryd iawn i deithwyr heddychol yr ugeinfed ganrif. Ond mae yr amser wedi cyfnewid. Y mae yn awr gan mlynedd er pan ddadweiniodd Prydain ei chledd i dywallt gwaed ei phlant tuhwnt i'r Werydd. Yr wyf wedi cyfeirio at rai o Eglwysi Undodaidd Boston. Mae yno lawer o honynt, ac y maent gan mwyaf yn dra llewyrchus. Mae yr Americaniaid yn hynod o hael tuag at eu cartrefi ysprydol, ac nid oes

dim yn rhy dda ganddynt i roddi iddynt i'w haddurno a'u cynal. Yr Eglwys fwyaf boblogaidd yn Boston ar hyn o bryd ydyw teml y Christian Scientists. Y mae yn adeilad hardd ac eang iawn a chostiodd haner miliwn o bunau. Mae tair oriel yno, un uwchben y llall, ac mae y seddau wedi eu trefnu yn ffurf haner lleuad fel y gall pawb weled y siaradwyr ar y llwyfan. Tu ol i'r llwyfan y mae organ ardderchog. Mae eisteddleoedd yno i dros bum mil o bobl ac yr oedd y nifer hwnw yn bresenol ar y nos Fercher yr ymwelais â'r lle. Yr oedd y gwasanaeth yn syml ond yr oedd difrifoldeb dwys yn argraphedig ar wyneb yr addolwyr. Codai amryw ar eu traed i dystiolaethu fod eu crefydd wedi dwyn iechyd a chysur iddynt. Yr wyf yn ystyried fod yr oll ag sydd o wir bwys yn nghrefydd y Christian Scientist yn rhan o ffydd pob dyn rhesymol. Y peth pwysig yw ein bod yn dwyn yr enaid i gydgordiad ag ewyllys Duw. Yn hyn mae nerth, iechyd a llawenydd. Fel ag y dywed Emerson, "Bydded dy gân am harddwch y da, a'r drwg a ddiflana." Eto i gyd ystyriaf fod medrusrwydd y meddyg yn foddion yn llaw Duw i adferu iechyd.

Wedi ymweled â'r lleoedd mwyaf dyddorol yn Boston, yr oeddwn yn barod ar gyfer y Gynhadledd, ac nid oedd genyf ddim i'w wneud ond mwynhau y wledd ysprydol oedd wedi ei darpar. Ni wnaf fanylu ar weithrediadau y Gynhadledd am fod hanes y cyfarfodydd wedi ymddangos yn barod yn YR YMOFYNYDD. Yr oedd yn hyfryd cyfarfod ag enwogion y gwahanol wledydd a theimlo ein bod yn frodyr oll er amrywio mewn iaith ac allanolion personol. Cefais yr anrhydedd o ysgwyd llaw ag amryw wyr a gwragedd ag oeddwn wedi arfer ystyried yn

HALEN Y DDAEAR,

ac yn eu plith Dr. Otto Pfleiderer, o Berlin, y duwinydd rhyddfrydig bydenwog, a Mrs. Julia Ward Howe, awdures "Hymn of the Republic." Erbyn hyn mae y ddau wedi cael eu galw oddiwrth eu gwaith at eu gwobrwy. Cynhelid y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn y Tremont Temple, capel eang iawn perthynol i'r Bedyddwyr. Cynhaliwyd un o'r cyfarfodydd hefyd yn Eglwys New Old South yr hon sydd adeilad destlus a chostfawr. Mae y gweinidog, Dr. Gordon, yn ddyn dysgedig a rhyddfrydig a lleinw yr un lle yn Boston ag yr arferai Dr. John Hunter wneud yn Glasgow cyn ei ymddiswyddiad, ychydig amser yn ol. Trodd y gynhadledd allan yn llwyddiant mawr. Amrywiai y cynulliadau o bymtheg cant i dair mil, ac ymddangosai pawb fel yn llawn zêl a brwdfrydedd. Tebyg na chyfarfyddodd cynifer o bleidwyr crefydd rydd a'u gilydd erioed o'r blaen er fod y cynulliadau yn Llundain ac Amsterdam yn rhagorol iawn, pan y cynhaliwyd y Gynhadledd yn y lleoedd hyny. Cynrychiolid Holland, Belgium, Denmark, Norway, Sweden, Germany, Ffrainc, Bohemia, Hungary, Switzerland, Italy, India, Japan, Affrica, Awstralia, New Zealand, Canada, Prydain Fawr, a'r Iwerddon a rhanau ereill o'r byd, yn gystal a'r Unol Dalaethau. Felly sicrheid o honom ag oeddym wedi dyfod yn nghyd o holl derfynau y ddaear, fod ein ffydd, fel haul y nefoedd, yn llewyrchu ar bob gwlad.

Cawsom roesawiad gwir frawdol gan y Bostoniaid, ac yr oedd eu lletygarwch yn beth i'w gofio am byth. O dan eu cyfarwyddyd cawsom ymweled a llawer o leoedd dyddorol yn y gymydogaeth, o'r rhai rhoddaf ddesgrifiad yn fy llith nesaf.

E. CEREDIG JONES.

(*Pw barhau.*)

JOHN PENRY.

PARHAD.

Ymddengys ag olrhain hen ysgrifeniadau fod y Penrys cyn hyn wedi bod yn chwareu rhan bwysig yn hanes ein gwlad. Unwaith buont yn berchenogion etifeddiaeth eang Llwyncyntefn ar lan y Wysg. Ond yr oedd y dyddiau hyfryd hyny wedi darfod cyn adeg Penry. Nis gellir bod yn sicr yn mha gyflwr yr oedd ei rieni, ond gallem dybio weithiau ei fod yn weddol cyn byth y gellid anfon y mab i'r athrofa yn Nghaergrawnt. Dywed Penry ei hun, pan yn cyfeirio at ei fam dyner, mai iddi hi yn hollol bron, y dylid priodoli aberth ei ddygiad i fyny, ac wrth hyny, deallir ar unwaith nad oedd yn hanu o deulu cyfoethog. Aeth

PENRY I CAERGRAWNT

pan yn 19 oed, ac yn yr amser hwn yr oedd ei galon a'i ysbryd mewn cydymdeimlad hollol â'r Pabyddion. Nid yw hyn yn syn, gan mai Pabyddiaeth, yn benaf, oedd yn Nghymru drwyddi i gyd yn y cyfnod hwn. Yn yr un athrofa yr oedd iddo gyfeillion mynwesol megys John Udall, Barrow a Greenwood, enwau y rhai ydynt heddyw yn adnabyddus yn mhob cylch crefyddol. Nis gwyr neb fesur dyfnder ymchwiliad y personau hyn am y gwirionedd ; cawn allan eu bod yn fuan iawn a Penry gyda hwynt, yn coleddu syniadau piwritanaidd, ac yr oedd hyn, yn y cyfnod tywyll hwn, yn profi yn ddiamheuol, a barnu oddiwrth y gwys newydd dorasant yn maes crefydd, eu bod wedi rhoddi astudiaeth fanwl i'r pwnc. Y pryd hwn, cawn i Penry, yn ogystal ag eraill, i ymadael a Chaergrawnt am Rhydychain, gan yn debygol fod Rhydychain y pryd hwnw yn fwy rhydd a Phiwritanaidd, ac yn 1586 darllenir iddo dderbyn y radd o M.A. yn yr athrofa grybwylledig.

Wrth weled sefyllfa druenus Cymru y pryd hwn, ysbrydolwyd ef mewn modd angerddol iawn i wneuthur yr hyn oll fedrai drosti. Yr oedd y wlad, weithian, yn ofergoelus, pechadurus, ac anwybodus, a gwaith anhawdd iawn i un dyn oedd ceisio goleuo gwlad gyfan. Aeth y gwron dros lawer bryn a mynydd i bregethu daionus Air Duw lle nas clybuwyd ef o'r blaen. Ceisiodd gael gwawl dysgeidiaeth a chyfiawnder i yru ymaith dywyllwch anghrediniaeth hofranai uwchben y wlad. Er ei holl ymdrechion diflino nid oedd y llwyddiant yn ei foddloni y pryd hwnw. Mae'n wir iddo sefydlu lawer o achosion ydynt heddyw yn fyw ac yn llewyrchu Gair y Gwirionedd, ond methai a gwneud i Gymru gyfan deimlo grym a nerth ei argyhoeddiad. Yr oedd cyflwr moesol yr offeiriaid a'r uchel swyddogion yn waradwyddus o isel, ac yr oedd Penry yn gweled a theimlo i'r byw ddyfnder dylanwad y fath gyfundrefnau ar y bobl. Saeson unieithog, ydoedd y mwyafrif o'r offeiriaid—yn pregethu estron iaith i'r bobl uniaith, efallai bob tri mis, ac yna yn mwynhau mel y degwm mewn anfoesoldeb a llygredigaeth. Tra mewn cyfyng-gyngor yn nghylch pa beth oedd oreu i wneuthur yn awr penderfynodd mai doeth oedd gwneuthur apêl i'r Frenhines yn nglyn a sefyllfa crefydd yn gyffredinol yn Nghymru. Ysgrifenodd ei draethawd yn mha un y gosododd i lawr ffeithiau cedyrn ac anwadadwy barodd gryn lawer o ofid ac anesmwythder i'r

ARCHESGOB WHITGIFT

a llawer o'r urddasolion eglwysig. Condemniwyd y traethawd hwn heb gymaint a'r ymchwiliad lleiaf am y gwirionedd a thaflwyd yr awdwr i garchar am ysbaid fer canys efe a

gafodd ei ryddhau yn fuan wedi derbyn ceryddon a rhybuddion pendant. Ar ol hyn priododd a Helen Godley o Northampton, ac ynddi cafodd gydmares gymwys yn mhob ystyr. Dwys gydymdeimlai a'i phriod, a dioddefodd dlodi a gwaradwydd yn ddistaw er ei fwyn. Yn gynar yn ystod ei fywyd priodasol daeth i gyffyrddiad ag amryw o bersonau pwysig—un o ba rai oedd Syr Richard Knightly o Fawsley Manor, yr hwn oherwydd ei fod yn Biwritan gwresog ei hun fu yn noddwr a chyfaill mynwesol i'n harwr. Yn y lle hwn galwyd rhyw fath o gynhadledd i ystyried beth i'w wneud, a phenderfynwyd yn unfrydol i wneuthur defnydd o'r wasg ddirgelaidd, er nad oedd yn rhyw gyfreithlawn iawn i gyhoeddi unrhyw beth heb ganiatad arbenig yr awdurdodau. Trwy offerynoliaeth y cyfrwng hwn, diameu fod llawer o ddaioni wedi ei gyflawnu. Penry ydoedd prif oruchwyliwr y wasg, a dygodd allan amryw o draethodau buddiol yn trin ar faterion eglwysig—yn benaf mewn cysylltiad a Chymru. Dyn o'r enw Waldegrave oedd yr argraffydd, a theimlai hwn mor angerddol dros syniadau Penry a'i gyfeillion, fel y dygodd allan, o'i law ei hun, amryw bamphledau dan yr enw Martin Marprelate. Teimlai hwn fod eisiau diwygiad yn druenus yn Lloegr yn ogystal, ac mae'n debyg iddo roddi ei farn parthed amryw o gwestiynau yn lled ddiofn a rhydd. Atebwyd y cyfryw gan Esgob Winchester ac eraill, a chreodd y fath ddadleu gyffro mawr yn y wlad. Yr oedd yr Archesgob Whitgift yn barod i wneud unpeth iddo, pe dalesid yr awdwr; ac yn y fath awyrgylch boeth a chymysglyd penderfynodd Penry mai doeth oedd ffoi i'r Alban am dymor. Er yma, yn yr Alban, y gallasai ei fywyd fod yn glir o beryglon, yr oedd ei galon a'i ysbryd yn dyheu am Gymru, ac i bregethu yr Efengyl iddi. Dychwelodd yn fuan i wneud cais personol i'r Frenhines am ganiatad i gyhoeddi yr Efengyl yn Nghymru heb ymyraeth a threfniadau yr Eglwys. Unwaith eto, yn Llundain, daeth i gysylltiad a Barrow, Greenwood a Johnson—a bu yn gwasanaethu yn yr Eglwys fechan yn Southwark fel lleygwr. Tra yma, ysgrifenodd draethawd, yn yr hwn y gosododd bwys mai teyrngarwch gwirioneddol i Grist ydyw egwyddor sylfaenol yr Eglwys, pa un yn ddiameu fu yn foddion i'w roddi i farwolaeth. Cynhyrfwyd yr awdurdodau eglwysig i'r fath raddau fel y penderfynasant ar unwaith i roddi

Taw Bythol ar yr "Heretic."

Daliwyd ef, a thaflwyd y gwron i garchar; a thra yma, yn rhagweled ei ddiwedd yn agoshau, ysgrifenodd mewn geiriau tyner ac anghyfieithadwy—lythyrau at ei briod, ei blant, a'r eglwys yn Southwark. Gadawai i bob un o'i bedwar plentyn—Feibl—fel yr unig drysor oedd ganddo i roddi iddynt, gan eu dwys gynghori i ganlyn ac i ufuddhau i'w orchymynion. Teyrnfradwriaeth oedd yr achos ddygid yn ei erbyn, ond yr achos gwirioneddol oedd—i foddhau yr awdurdodau eglwysig. Dedfrydwyd ef i farwolaeth—ac yr un dydd, sef y 25ain o Fai 1593, codwyd y grogbren, ac hurddiwyd ein harwr adref i wyddfod ei Dad Nefol yr hwn wasanaethodd yn onest a thrylwyr trwy ei oes fer. Bu y gwron farw oherwydd rhagfarn, traha, a gelyniaeth plaid. Ond nid yn ddigolled y bu y farwolaeth hon. Ar ei ol ysprydolwyd eraill i ddilyn ei lwybrau, a lliosogodd y nifer hyn o ymchwilwyr am y Gwirionedd yn bur fuan. Er iddynt oll ddioddef erledigaeth, carchar ac alltudiaeth—eto ceir eu bod yn blodeuo ac enill tir. Y gwir yn wastad ddeil yn wyneb holl ymosodiadau cythreuliaid y fâll. Gwelwn yn fuan ddyrnaid o bobl yn glanio draw yn yr Amerig bêll, ac yno yn sylfaenu cenedl gref dan arwyddair

"Rhyddid."

Buan gwelwyd Anghydffurfiaeth yn llwyddo yn y wlad yn wyneb y mesurau mwyaf caeth a rhagfarnllyd yn ei

erbyn. Gwelwn Efengyl bur yr Iesu ei hun yn cael ei phregethu yn nerthol dros Gymru gyfan. Y gwir a ddeil yn erbyn holl gyngrheiriau y diafol ei hun.

Ein Penry anwyl fu fyw a marw er mwyn llesoli ei genedl. A ydym ni werinwyr Cymru heddyw yn deilwng blant i arwyr felly? Os nad ydym ceisiwn ynte sugno dafn o'r ysbrydoliaeth ddwyfol fynwesai ein harwr, modd y gallwn rodio oddiamgylch mewn purdeb ac hefyd wneud ein rhan, er mor fychan yw, i hyrwyddo dyfodiad Teyrnas Nefoedd ar y ddaear.

Mydroilyn. D. JONES.

CYFARFODYDD CANMLWYDDOL BWLCHYFADFA.

Sefydlwyd yr achos yn Mwlchyfadfa yn 1812; adeiladwyd yr addoldy cyntaf yn 1813—can mlynedd i'r flwyddyn bresenol. Daeth i feddwl rhai o'r cyfeillion yn y lle na ddylent adael i amgylchiad mor bwysig a dyddorol fyned heibio heb wneud rhywbeth i'w ddathlu. A pha ddull mwy addas i ddathlu digwyddiad o'r fath na thrwy gynal gwasanaeth crefyddol? Dyna'r dull ddewiswyd gan gynulleidfa'r Bwlch; a phenodwyd y 12fed o Dachwedd fel y dydd i gynal yr wyl ddathliadol.

Trodd yr hin allan bytrach yn anffafriol, yr hyn a rwystrodd lawer yn ddiau, yn enwedig rai yn byw dipyn o ffordd o'r lle, i fod yn bresenol. Ond er hyn daeth nifer luosog yn nghyd—amryw o'r cynulleidfaoedd cymydogaethol, er nad oedd nifer y rhai hyn mor lluosog ag y gellid disgwyl ar amgylchiad mor ddyddorol yn hanes chwaer-eglwys.

Dechreuwyd gwasanaeth y prydnawn gan y Parch. J. Davies, un o gludwyr y faner am yr haner canrif diweddaf; a'r hwn, yn ol pob arwyddion allanol, fel y mae yn dda gan ei luaws edmygwyr i sylwi, sydd yn meddu digon o nerth i wynebu haner canrif arall, a'i barabl mor llithrig, a'i feddwl mor finiog, a'i iaith mor berffaith drefnus ag erioed. Yna galwodd Mr. Jenkins, y gweinidog, ar Mr. J. R. Thomas, Ysgolfeistr, Pontsian (neu Pontshaen, fel y myn yr awdurdodau gwladol, yn eu doethineb bwngleraidd, ei alw) i ddarllen papyr ar "Hanes yr Achos yn ystod y Ganrif." Darllenodd yntau bapyr hir, ond nid rhy hir, ag ystyried pwysigrwydd y testyn ac eangder y maes oedd ganddo i frasgamu drosto. Dangosodd ei fod wedi llafurio yn ddiwyd yn ei ymchwil am ddefnyddiau; a phan gofiwn mor brin yw'r defnyddiau, rhyfeddaf ei fod wedi llwyddo cystal. Ar ei ol, darllenodd Mr. T. G. Thomas, y "Ffatri," bapyr ar "Rai o Hen Gymeriadau'r Gynulleidfa a Adwaenwn,"—dyna, o leiaf, oedd sylwedd, os nad geiriad, ei destyn. Darllenodd yntau bapyr hir,—hir, er na ddarllenodd yr oll oedd wedi ei ysgrifenu ganddo. Wrth wrando arno, teimlwn fod Mr. Thomas, er dirfawr golled i'n heglwysi, wedi camsynied ei alwedigaeth—nid "ffatriwr" ddylai fod, ond "cenhadwr y gair." Ond pam na all eto gyfuno'r ddwy alwedigaeth? Yn wir, y mae wedi dechreu gwneud hyny: paham, tybed, y rhoddodd i fyny. Darllenodd ei bapyr gyda'r fath hwyl ac arddeliad fel yr oedd y gynulleidfa—fy hunan yn ei plith—wedi llwyr anghofio fod tywyllwch nos o'u cylch yn cau. Diau, fod y ddau anerchiad, fel y maent, yn rhy hir i basio heibio i'r bwrdd golygyddol a phwyntel glas y golygydd yn ddianaf. A thrueni fyddai eu cwtogi. Am y rheswm hwn

dymunaf yn ostyngedig awgrymu i'r cyfeillion yn y Bwlch y dymunoldeb o gyhoeddi'r ddau anerchiad yn llyfryn, yn cynwys darluniau o'r ddau gapel ac o'r oll o'r gweinidogion y gellir cael darluniau o honynt, yn nghyd a bywgraffiad byr o bob un. Rhoddai hyn i awdwyr y ddau bapyr gyfleusdra i wneud unrhyw ychwanegiadau a dybiant yn angenrheidiol, ac i gywiro unrhyw wallau y dichon iddynt sylwi arnynt neu y mae ereill wedi nodi allan ar ol eu clywed. Ar ol y ddau anerchiad, cawd ychydig sylwadau o natur longyfarchiadol gan y Parchn. D. Evans, L. Williams, T. A. Thomas, ac E. O. Jenkins.

CAPEL BWLCHYFADFA.

Dechreuwyd y gwasanaeth hwyrol gan y Parch. D. Evans, a phregethwyd gan y Parchn. L. Williams a T. A. Thomas—y cyntaf oddiar Ioan xiii. 17, yr ail oddiar Gen. xxvi. 12—16. Ffynonellau dedwyddwch oedd pwnc Mr. Williams, a nododd dair o honynt: — (1) Sicrwydd meddiant bywyd crefyddol; (2) cysondeb bywyd crefyddol; (3) y nerth ysprydol gyfrenir gan fywyd crefyddol. Sylwodd Mr. Thomas mai addfwynder yn gorchfygu trais yw'r yspryd ddangosir gan Isaac yn y testyn a'i gysylltiadau—yspryd y bregeth ar y mynydd wedi ei amlygu mewn bywyd filoedd o flynyddau cyn i hono gael ei thraddodi.

Ar ol ychydig sylwadau pwrpasol gan y gweinidog, ymwahanodd y dorf gyda'r teimlad—o leiaf, dyna gredaf—mai da oedd bod yno.

D.E.

PRIODASAU.

TACHWEDD 12, yn nghapel Brondeifi, gan y Parch. R. C. Jones, unwyd Mr. Herbert Leon Rees, Coedmore Fawr, mewn glân briodas a Miss Margaret Davies, Tynrhos—y ddau o blwyf Pencarreg.

TACHWEDD 14, yn Nghapelygroes, gan y Parch. D. Evans, a cher bron Mr. Titus Evans, y Cofrestrydd, Mr. John James Davies, Pensarnmynach, Cribyn, a Miss Judith Mary Davies, Unity, Capelygroes. Hir oes a phob dedwyddwch.

MARWGOFION.

MEDI 30, yn 75 oed, Mr. John James, Teilo House, Rhiw Meneich, Aberdar, ar ol hir gystudd. Meddai Mr. James law haelionus at bob achos da. Dydd yr angladd, sef dydd Gwener, gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. R. J. Jones, ac yn y Cemetery gan y Parch. Mr. Evans, y gweinidog. Wedi ysgrifenu yr uchod yr ydym wedi darllen fod Mr. James wedi gadael Cymunrodd o £200 at wasanaeth y capel Undodaidd yn Highland Place.

HYDREF 14, yn 29 oed, Mr. Thomas Thomas, Ilan Road, Abertridwr, sef mab Thomas a Mary Thomas, Pantcochisaf, Talgareg, Llandyssul. Yr oedd Tom yn un o'r nifer fawr a gollasant eu bywydau yn nhanchwa Senghenydd ar y dydd uchod. Deuwyd o hyd i'w gorff prydnawn dydd Mercher 12fed o'r mis hwn (Tachwedd) a'r Sadwrn canlynol dygwyd ef mewn modur gerbyd i'w gladdu yn mynwent Bwlchyfadfa. Yr oedd nifer luosog o berthynasau a chyfeillion wedi ymgynull yno i ddangos eu cydymdeimlad a'r tad a'r fam, y chwaer a'r brodyr yn eu galar a'u hiraeth. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. "Yn hyn i gyd ni phechodd Job ac ni roddodd yn ynfyd ddim yn erbyn Duw."

HYDREF 18, Mrs. Eleanor James, Fishers Arms, Cellan, yn 76 mlwydd oed. Dioddefodd gystudd maith a blin cyn i'r ysbryd gael ei ryddhau i fyned at Dduw a'r anwyliaid oeddynt wedi blaenu arni drwy y geledig gul adwy—rhai flynyddoedd lawer yn ol ac eraill yn y dyddiau diweddaf hyn, ac hyderwn fod y dagrau oll bellach wedi eu sychu ar fryniau y wlad well. Nid oes neb ag sydd yn adnabyddus ag hanes bywyd yr ymadawedig nad yw'n gwybod am y beichiau trymion ac anhawdd eu dwyn fu ar ei hysgwyddau'n awr ac eilwaith ar y daith, ond ar bwys ei theimlad o ddyledswydd at y rhai anwyl a ymddibynent arni, hi a ymdrechodd ymdrech deg nes eu gorfychu oll. Ac nid ydym yn meddwl fod neb erioed wedi treulio bywyd llawer mwy gwasanaethgar a llafurus yn mhob cyfeiriad yn y cylch yr oedd hi'n troi ynddo na hi, ac mae bellach wedi myned oddiwrth ei gwaith at ei gwobr. Yr oedd yn aelod o Eglwys Caeronen ac yn un o'i haelodau henaf. Gadawodd mewn galar ar ei hol bump o blant a pherthynasau eraill lawer. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Caeronen a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Mr. Jones (A.), Capel Erw.

HYDREF 23, yn 76 mlwydd oed, Thomas Jones, Lôn, Alltyplaca, gynt o Ffinantuchaf, plwyf Llanwenog. Dyn o dymher dawel ac o yspryd mwyn oedd yr ymadawedig; carai fod mewn heddwch â phawb, a dymunai yn dda i bawb. Claddwyd ef y Mawrth canlynol yn mynwent Eglwys Llanllwni. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, Rhydygwin, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. J. Davies, Alltyplaca a D. James, Rhydybont. Cyflawnwyd y gwasanaeth yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan Ficer y lle. Gadawodd un brawd a pherthynasau eraill i alaru ar ei ol.

HYDREF 27, yn 60 mlwydd oed, Eleanor Evans, Ffynonoer, Llanfihangel Ystrad. Yn Pantycelyn, ger Cwrtnewydd, yr oedd yr ymadawedig wedi treulio ei bywyd hyd o fewn i'r deg mlynedd diweddaf. Symudodd i Ffynonoer i weini ar Stephen Lewis o'r lle uchod (a thad i Sergeant Lewis, Tregaron) yn hwyrddydd ei fywyd. Yr oedd ei hiechyd wedi dechreu gwaelu er's blynyddau, a chymerodd gwanychiad graddol le hyd y diwedd. Yr oedd ei bywyd yn llawn o rinweddau. Yr oedd yn aelod crefyddol selog; gwnai ei goreu yn mhob ffordd ag oedd yn ei gallu i gynal yr Eglwys ag y perthynai iddi. Ymdrechai hefyd fyw yn unol a'i phroffes, ac yr oedd amryw o ragoriaethau y Cristion yn harddu ei bywyd. Cymerodd ei hangladd, yr hwn oedd yn ol ei gorchymyn yn anghyhoeddus, le y Gwener canlynol, a chladdwyd yn mynwent Capelygroes. Cyflawnwyd y gwasanaeth yn y ty gan y Parch. L. Williams, ac yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. D. Evans. Gadawodd un chwaer, sef Mrs. Lewis, priod Sergeant Lewis, Tregaron, a pherthynasau eraill mewn galar ar ei hol.

TACHWEDD 2, yn 73 mlwydd oed, Mrs. Elizabeth Davies, The Alma, Llandyssul. Yr oedd yr ymadawedig yn mhlith preswylwyr henaf a mwyaf adnabyddus Llandyssul, ac yr oedd ei gwybodaeth o hanes y lle a'i gymeriadau ddwy genhedlaeth yn ol yn fawr ac yn ddyddorol. Gweithiodd yn galed drwy ei hoes ac yr oedd siop yr Alma yn adnabyddus i gylch helaeth o gwsmeriaid. Cafodd ei bendithio â iechyd da drwy'r blynyddoedd hyd ryw ddwy flynedd cyn ei marwolaeth. Gadawodd i alaru ar ei hol un ferch ac un mab—y Parch. J. Tyssul Davies, B.A., yn awr o Gaer Efrog. Y dydd Gwener dilynol claddwyd ei rhan farwol yn unol a'i dymuniad yn nghladdfa Pantdefaid. Gwasanaethwyd yn y tŷ a'r capel gan y Parch. Arthur Thomas, ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

TACHWEDD 3, yn 15 oed, John, mab bychan William ac Esther Williams, Bryngolau, Llandyssul, gan adael rhieni a brawd a chwaer i wylo ei golli o'r aelwyd. Claddwyd y Gwener canlynol yn Llwynrhydowen, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. A. Thomas. Yr oedd maint y cynhebrwng yn dweyd fod llawer calon a llawer ardal yn cydymdeimlo â'r teulu yn eu galar. Ni fu y bychan yn alluog i wneud fawr drosto ei hun yn ystod ei oes fer ond credwn iddo ddysgu tad a mam sut i ragori mewn amyneddgarwch—sut i ymserchu ac anwylu—ac yn awr gan ei fod wedi rhagflaenu i wlad y wawr a'r goleuni hyderwn y gwna eu henill i ymserchu mwy a mwy yn y wlad ag y mae ef yn ddeiliad o honi. "Cawn gwrddyd yn y nef."

TACHWEDD 18, yn 52 oed, bu farw Sarah Rees, Blaenberllan, Cribyn (diweddar o'r Fronfelen) ar ol cystudd byr. Bu mewn gwasanaeth yn y lle olaf a enwyd am 38 o flynyddau, ac yr oedd wedi ymneillduo i'r lle uchod gyda'i mheistr a'i mheistres, gan y rhai y delid hi mewn parch ac anwyldeb mawr. Gadawodd dad a mam, brodyr a chwiorydd, a llu o berthynasau, mewn galar ar ei hol. Cymerodd y gladdedigaeth le dydd Sadwrn canlynol yn Nghapelybryn, Cwrtnewydd. Pregethwyd yn y ty cyn cychwyn gan y Parch. D. Evans, a gweinyddwyd yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. J. Davies.

MANION AC HANESION.

PARCH. E. CEREDIG JONES, M.A. —Deallwn fod Mr. Jones wedi cwrdd a damwain a allasai fod yn niweidiol iawn ; ond da genym ddeall iddo ddianc yn rhyfeddol. Yr oedd ar ei ffordd adref o Landrindod pan ddymchwelodd y Motor Car gyda'i holl gynwys. Diangodd pob un bron yn wyrthiol er nad yn hollol ddianaf.

LLWYNRHYDOWEN. — Nos Sul, Hydref 12fed, yn lle y gwasanaeth arferol, cafwyd gwasanaeth o adrodd a chanu. Adroddodd rhai o'r plant salmau ; canodd Côr y Plant o dan arweiniad Miss Dinah Jones, Gelliaur, amryw ddarnau, a chafwyd unawdau, deuawdau, &c., gan rai o'r merched. Cafwyd hefyd anerchiadau byrion gan Mr. J. R. Thomas a'r Parch. E. O. Jenkins. Hyderwn y cawn gyfarfod tebyg eto cyn bo hir.

ANRHEG.—Yn nghyfarfod diolchgarwch diweddaf Alltyplaca anrhegwyd Mr. Thomas Evans, Lowtre ag awrlais hardd gydag arysgrifen, yn gydnabyddiaeth o'i ffyddlondeb gyda'r canu. Derbyniodd Mr. Evans yr anrheg mewn araeth hynod bwrpasol. Mae Eglwys Alltyplaca yn dymuno i Mr. Evans a'i deulu hir oes lwyddianus yn eu cartref newydd yn y Cribyn.

ABERTAWE. — Daeth cynulleidfa dda ar noson mor arw, i glywed y Parch. D. G. Rees, Gellionen, yn traddodi ei ddarlith ar "Parabl Pererin Cymreig ; o Gellionen i Ganaan ac yn ol," ar Hydref 27ain, a chawsant eu llawn wobrwy am ddyfod. Daliodd Mr. Rees sylw y gynulleidfa yn y modd mwyaf diddan am ddwy awr, yr hyn sydd yn brawf ei fod fel dyn doeth wedi teithio i'r Aipht a Chanaan, a'i lygaid yn ei ben, a'i ben yn cynorthwyo ei lygaid. Yr oedd yno fwy na digon o ddarluniau ar y Magic Lantern, yr hyn yn ddiamheu a dorir i lawr erbyn y tro nesaf, fel ag i roi amser i ddangos y dillad brodorol, a ffon ac arfau y bugeiliaid, ar y diwedd. Methiant i wneud hyn a achosodd gryn dipyn o siomedigaeth i'r plant y tro hwn. Ar gynygiad Mr. J. Moy Evans, yr hwn oedd yn llywyddu y cyfarfod, ac eiliad Dr. Thomas Evans, pasiwyd pleidlais gynes o ddiolchgarwch i Mr. Rees. Mr. Clifford W. Jones a weithiodd wrth y llusern yn fedrus.

DIOLCH AM Y CYNAUAF.—Cynaliwyd cyfarfodydd diolch yr Hen Dy Cwrdd, Aberdar dydd Sul, Hyd. 26, y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, yn gwasanaathu. Rhoddodd Mr. Jenkins foddlonrwydd mawr drwy'r dydd, a chlywsom un yn dadgan ei ddymuniad i weled pregeth y bore yn enwedig yn argraffedig yn YR YMOFYNYDD.

CYNALIODD Eglwys Brondeifi ei chwrdd diolchgarwch eleni nos Fercher 29ain o Hydref, ac Eglwys Caeronen ar y 30ain o'r un mis yn y prydnawn ac yn yr hwyr. Gwasanaethwyd yn yr oll o'r cyfarfodydd gan y Parch. E. O. Jenkins.

"CYNWYSAI y grefydd alwai ei hun yn Gristionogol gredoau oeddynt mewn gwirionedd yn ofergoelus. Cynwysai feddyliddrych yr iawn, y meddyliddrych y gallwch gael gwared o'ch pechod trwy ei symud a'i roi ar ysgwyddau y diniwed. 'Roedd hona yn athrawiaeth, fel 'roedd yn amlwg, na nodweddai Gristionogaeth mewn unrhyw fodd yn arbenig. Credo gysurlawn iawn ydyw, os bydd genych lawer o euogrwydd ar eich cydwybod. Rhaid i ni gael gwared o'r gred yna er mwyn gwneud i bobl ddwyn eu rhan ddyladwy o gyfrifoldeb moesol. 'Roedd ef am ladd y gobaith yn mhob enaid dynol y gallem mewn unrhyw fodd drosglwyddo ein cyfrifoldeb am ein camweddau ar unrhyw aberth pwy bynag."—*Bernard Shaw yn y City Temple, Hydref 30, 1913.*

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

"PARABL PERERIN CYMREIG, O GELLIONEN I'R AIPHT A CHANAAN AC YN OL."

TRADDODIR .. ..

DARLITH

Ar y Testun uchod, gyda 50 o ddarluniau, gwisgoedd brodorol, etc., i egluro arferion y Beibl.

Ymofyner â'r **Parch. D. G. Rees, Trebanos, Pontardawe, Glam.**

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing —— food for everybody. ——

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

Directors:

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord Airedale, Leeds.
Sir Percy Elly Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool
John Alexander Christie, Esq., London.
David Davies, Esq., M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
Arthur T. Keen, Esq., Birmingham.
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry

Authorised Capital ..	**£22,200,000**	**Subscribed Capital** ..	**£19,148,340**
Paid up Capital ..	**£3,989,237**	**Reserve Fund** ..	**£3,390,313**

Deposits .. £83,000,000.

BRANCHES AND AGENCIES IN CARDIGANSHIRE AND CARMARTHENSHIRE:—

Aberayron, Aberystwyth, Aberporth, Ammanford, Brynamman, Cardigan, Carmarthen, Cross Hands, Crymmych, Drefach, Kidwelly, Lampeter, Laugharne, Llanon, Llanboidy, Llandilo, Llandyssul, Llanelly, Llanybyther, Newcastle Emlyn, New Quay, Pencader, Pontardulais, Pontrhydfendigaid, Pontyberem, St. Clears, St. Dogmael's, Tregaron, Whitland.